PAVO

Powys Association of Voluntary Organisations

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys

ADRODDIAD EFFAITH

2024-25

CATALYDD CATALYST

LLAIS VOICE

CANOLBWYNT HUB

Helpu Mudiadau; Gwella Bywydau Pobls

Neges gan Clair Swales, Prif Weithredwr PAVO

Rwy'n falch iawn o gyflwyno Adroddiad Effaith PAVO ar gyfer 2024–25 – blwyddyn sydd unwaith eto'n dangos cryfder anhygoel sector gwirfoddol a chymunedol Powys wrth greu newid parhaol.

Mae PAVO yn parhau i fod yn gatalydd, yn llais, ac yn hwb ar gyfer gweithredu gwirfoddol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cefnogi cannoedd o fudiadau, wedi helpu i sefydlu gwasanaethau newydd, ac wedi darparu gweithgareddau sy'n cryfhau llywodraethiant, arweinyddiaeth, a gwydnwch cymunedol.

sRydym hefyd wedi cefnogi unigolion gyda'r hyn sydd bwysicaf iddynt – lleihau unigrwydd, mynd i'r afael ag arwahanrwydd, a gwella llesiant. Mae llwyddiant yn golygu pobl yn dod ynghyd i wneud gwahaniaeth: gwirfoddolwyr yn ennill sgiliau, ymddiriedolwyr yn meithrin hyder, a chymunedau'n gweithredu.

Trwy fentrau fel y Cynnig Rhagweithiol, 'Ffit i Ffermio', a'n rhwydweithiau thematig a lleol, mae cydweithio wedi parhau i ffynnu – gan wella llesiant ac atgyfnerthu lleisiau cymunedol. Mae ein partneriaethau ar draws sectorau yn sicrhau bod mewnwelediad lleol yn rhoi cyfle uniongyrchol i siapio dyluniad gwasanaethau ar draws Powys.

Rydym hefyd wedi cofleidio arloesedd – gan ddatblygu ymhellach ein gwefan a'n e-fwletinau, a gwella hygyrchedd digidol fel bod gwybodaeth a chefnogaeth hanfodol yn cyrraedd pawb sydd eu hangen.

Rwy'n hynod falch o'n staff, ein hymddiriedolwyr, a'n gwirfoddolwyr ymroddedig; eu hymrwymiad a'u caredigrwydd sy'n gwneud hyn yn bosibl. Gyda'i gilydd, maent yn dangos y pethau gorau sydd gan Bowys i'w gynnig – gwydn, deheuig, a chymunedol ei natur.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at lwyddiant eleni – ein cyllidwyr, ein partneriaid, ac, yn anad dim, pobl Powys. Gyda'n gilydd, rydym yn adeiladu sir gryfach, decach, gyda gwell cysylltiadau a lle mae cymunedau ac unigolion yn medru ffynnu.

Neges gan Jamie Burt, Cadeirydd Ymddiriedolwyr PAVO

Mae'n rhoi pleser mawr i mi gyflwyno Adroddiad Effaith PAVO ar gyfer 2024/2025, yn enwedig wrth i'm cyfnod fel Cadeirydd y mudiad ddod i ben ar ôl pum mlynedd. Unwaith eto eleni rydym wedi gweld cryfder, gwydnwch, a chreadigrwydd y trydydd sector ym Mhowys. Dan arweiniad ein Cynllun Strategol, rydym yn parhau i gyflawni ein rôl fel Catalydd, Llais, a Hwb.

Rydym wedi cefnogi cydweithio ac arloesi, gan sicrhau bod lleisiau cymunedol yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau, ac wedi darparu cyngor a gwybodaeth y gellir ymddiried ynddynt i gryfhau mudiadau ar draws y Sir.

Eleni cyrhaeddom garreg filltir ryfeddol — dosbarthu dros £1.34 miliwn mewn grantiau i grwpiau cymunedol ar draws Powys, y swm mwyaf yn hanes PAVO. Mae'r arian hwn wedi
galluogi mudiadau i wella llesiant, moderneiddio cyfleusterau, a darparu atebion ymarferol i'r heriau costau byw a chynaliadwyedd sy'n wynebu ein cymunedau. Rwy'n hynod falch o'r diwydrwydd a'r proffesiynoldeb y mae tîm PAVO wedi dangos.

Mae ein rhwydweithiau lleol wedi parhau i dyfu, gan gysylltu grwpiau a meithrin cydweithio. Ar yr un pryd, mae ein tîm datblygu wedi cefnogi nifer cynyddol o fudiadau sy'n ceisio gwella eu llywodraethiant a'u gwydnwch tymor hir. Gyda'n gilydd, mae'r ymdrechion hyn yn anelu at adeiladu sector gwirfoddol hyderus sydd â chysylltiadau da.

Hoffwn fynegi fy niolch diffuant i'n staff, ein hymddiriedolwyr, a'n gwirfoddolwyr am eu hymroddiad a'u caredigrwydd parhaus. Mae eu gwaith yn ymgorffori'r gwerthoedd sydd wrth galon PAVO—cydweithio, uniondeb, a grymuso—ac mae eu hymdrechion yn parhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ar draws Powys.

Wrth edrych ymlaen, mae ein ffocws yn parhau ar gefnogi sector gwirfoddol sy'n wydn, dylanwadol, ac yn gynhwysol—un sy'n gweithio law yn llaw â chymunedau a phartneriaid statudol i gyflawni newid cadarnhaol. Rwy'n cyflwyno'r adroddiad hwn i chi, nid yn unig fel cofnod o'n llwyddiannau ond fel dathliad o'r pwrpas a rennir sy'n gyrru'r sector cyfan.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad parhaus.

Mae PAVO yn GATALYGYDD ar gyfer gweithredu gwirfoddol

The Active Offer Project

bit.ly/3Wlfe5m

Prosiect y Cynnig Rhagweithiol Cynhwysiant Digidol a Ariannwyd gan SPF Hyfforddiant am ddim wedi'i ddarparu i wirfoddolwyr yn Nhref-y-clawdd i ddefnyddio cymwysiadau digidol

1189 gweithgaredd wedi'u cyflwyno i gefnogi ymddiriedolwyr

375 o achlysuron lle darparwyd cefnogaeth i sefydlu gwasanaeth neu fudiad newydd

328 o gyfranogwyr ar gyrsiau hyfforddi

669 o fudiadau wedi derbyn cyngor ac arweiniad

CATALYDD: Beth wnaethom ni??

- 105 o achlysuron lle darparwyd cefnogaeth i fudiadau i recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr
- 459 o ryngweithiadau â mudiadau oedd yn cynnwys elfen o wirfoddoli
- 153 o bobl yn cymryd rhan mewn gwirfoddoli i Wasanaeth Cyfeillio Powys

CATALYDD – Beth wnaethom ni??

"…Am ba mor wych y mae PAVO wedi bod gyda'r Cynnig Rhagweithiol. Ymatebwyd yn gyflym iawn…ac fe wnaethon nhw gynnig rhai syniadau gwych."

Rachel Griffiths, Cartref Nyrsio Bethshan

"Y cyfle i ddatblygu nid yn unig fy sgiliau, ond hefyd sut mae'r amgueddfa yn symud ymlaen yn ein dulliau o ymgysylltu â'r cyhoedd ni fyddai wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth y grant hwn. Byddwn yn annog unrhyw un sydd â syniad i fynd amdano gan ei fod yn her wych ac yn gyflawniad personol gwych i'w gwblhau a gweld y syniad hwnnw'n troi'n realiti."

Amanda Roseware, Royal Welsh Regimental Museum

1339

Io ryngweithiadau yn ymwneud â chyllid

£2,707,556

o gyllid wedi'i ddyfarnu trwy grantiau PAVO

£61,995

o gyllid wedi'i gefnogi

Prosiectau	Manylion	Deilliant
Ffeiriau llywodraethiant a chyllido	Cynhaliwyd ffeiriau llywodraethiant a chyllido gan y Tîm TSD	Roedd mynychwyr yn gallu cael cymorth ar unwaith gydag ymholiadau gan wella eu siawns o gyflwyno ceisiadau'n llwyddiannus. Codwyd proffil PAVO yn y gymuned leol
Ailadeiladu Sylfeini Cymunedol	£1.2 miliwn o grant wedi'i ddosbarthu i adeiladau cymunedol	• ·200+ o ffurflenni cais wedi'u hanfon allan • ·110+ o geisiadau wedi'u derbyn • ·Ceisiadau a gyflwynwyd yn cyfateb i £4 miliwn • ·4 cyfarfod panel I weinyddu cyllid • ·63 o brosiectau wedi'u hariannu

CATALYDD – adolygiad

Astudiaeth Achos

Lottie Cook – Gwirfoddolwr Panel leuenctid

Roedd bod yn aelod o banel grantiau yn ymddangos fel cyfle gwirfoddoli diddorol ac yn wahanol i'r hyn rwyf wedi clywed amdano o ran gwirfoddoli o'r blaen. Penderfynais gymryd rhan oherwydd fy mod yn hoffi trafod pethau. Roedd yn swnio fel cyfle da i rannu barn a chlywed barn pobl eraill hefyd.

Fe wnaeth i mi deimlo fy mod yn rhan o'r penderfyniadau, ac yn medru lleisio barn ynghylch yr hyn sy'n digwydd. Roeddwn yn teimlo'n dda fy mod wedi gallu gwneud rhywbeth i helpu eraill. Fe wnaeth helpu'r mudiadau a wnaeth gais am gyllid i gynnig gwasanaethau a digwyddiadau gwahanol yn y gymuned er budd teuluoedd a phobl ifanc.

"Mae gwirfoddoli yn brofiad gwerth chweil sy'n helpu cymunedau a phobl o fewn cymunedau."

Astudiaeth Achos

Roedd pwyllgor neuadd bentref Llangasty yn gwneud cais am statws CIO ac yn ceisio sicrhau prydles – hebddo roedd mynediad at gyllid yn gyfyngedig. Fe gyflwynodd y neuadd gais llwyddiannus am arian SPF ar gyfer adeiladau cymunedol, ac roedd cael prydles yn amod wrth dderbyn y nawdd.

Gyda chefnogaeth PAVO, rhoddwyd statws CIO gan ganiatáu i'r neuadd ddal prydles. Ymgysylltodd yr ymddiriedolwyr â nifer o grwpiau lleol drwy'r broses a sicrhawyd prydles gyda rhent enwol (peppercorn rent).

Helpodd y prosiect i:

- Ganolbwyntio meddyliau'r ymddiriedolwyr ar yr heriau yr oedd angen iddynt eu goresgyn, gan arwain at lwyddiant wrth ennill statws CIO a phrydles 25 mlynedd
- Dangos i'r gymuned fod y neuadd yn cael ei gofalu amdani a hynny am y 100 mlynedd nesaf

Mae PAVO yn cynnig LLAIS dilys ar ran cymunedau Powys a'r trydydd sector

Y Prif Weithredwr yn cwrdd â David Chadwick AS

Fforwm Pobl Hŷn yn Ystradgynlais

1386 o ryngweithiadau'n ymwneud â'r thema dylanwad ac ymgysylltu

106 o gyfleoedd wedi'u creu ar gyfer cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth

280 o achlysuron lle defnyddiwyd llais pobl neu fudiadau wrth gynllunio gwasanaethau

LLAIS: Beth wnaethom ni?

- Cefnogwyd dealltwriaeth a siapio cydgynhyrchu gwasanaethau ar 353 o achlysuron
- Nodwyd 133 o faterion drwy gyfranogiad cymunedol, defnyddwyr gwasanaeth neu ofalwyr

Llais – Beth wnaethom ni?

"Diolch enfawr i PAVO am y digwyddiadau dros yr wythnosau diwethaf, sydd wedi galluogi i mi wneud cysylltiadau pwysig gydag unigolion allweddol – yn enwedig o fewn y bwrdd iechyd.'

RRachael Owen, Rheolwr Asiantaeth, Gofal a Thrwsio ym Mhowys

93

o ddigwyddiadau rhwydweithio trydydd sector wedi'u trefnu

1,341

o fynychwyr mewn rhwydweithiau a hwyluswyd gan PAVO

576

o gyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu a chyfranogiad

Prosiectau	Manylion	Deilliant
Rhwydwaith Ffocws Darparwyr Iechyd Meddwl	Hwyluswyd rhwydweithiau yn chwarterol ar gyfer darparwyr Iechyd Meddwl PTHB a gomisiynwyd.	• Gwybodaeth wedi'i chynyddu am waith sy'n Seiliedig ar Drawma yn dilyn cyflwyniad gan Cymru sy'n Ystyriol o Drawma • Gwell perthynas waith gyda Gwasanaeth Lloches gofal argyfwng CAMHS
Cyfranogiad Iechyd Meddwl	Hwyluswyd cynnal cyngor yn fisol i gleifion ar Ward Felindre, Cynrychiolwyr Iechyd Meddwl Ysbyty Bronllys mewn Cyfarfodydd Partneriaeth ac ymgynghoriadau.	• Gwell cyfathrebu rhwng staff a • chleifion • Ymgynghorwyd â staff y ward ynghylch materion i gleifion gan arwain at brofiad gwell

Llais – adolygiad

Astudiaeth Achos

Beth – Cefnogwyd Cynrychiolwyr sy'n Ddinasyddion i fynychu digwyddiad Llywodraeth Cymru 'Tuag at System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru' yng Nghaerdydd. Cefnogwyd nhw gyda threfniadau archebu gan sicrhau mynediad oherwydd nam ar y golwg, trefniadau teithio gan gynnwys dealltwriaeth o gŵn tywys, egluro pwrpas y digwyddiad a hefyd yn ystod y digwyddiad.

Deilliannau – Teimlai Cynrychiolwyr Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr eu bod wedi'u cefnogi'n llawn i fynychu'r digwyddiad a hefyd yn ystod y sesiwn. Rhoddwyd mewnbwn a chasglwyd dysgu ar greu Hybiau lle gellir cael mynediad at sawl gwasanaeth mewn un lle ar draws Cymru.

Adborth – Adroddodd Cynrychiolwyr Defnyddwyr Gwasanaeth y byddent yn dod â'r dysgu a gasglwyd yn y digwyddiad yn ôl i Bowys ac yn defnyddio'r dysgu hwnnw i ddylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau Powys yn y dyfodol..

Lindsay Cordery-Bruce, WCVA Chief Executive, visits the Farming Fit stand at the RWAS 2024

Uchafbwynt – Ffit i Ffermio

Dros 1000 o ddinasyddion wedi ymgysylltu drwy 'Ffit i Ffermio', dull partneriaethol, gan fynd â sgyrsiau a gwiriadau iechyd a llesiant allan i'r gymuned amaethyddol.

Dod ag adnoddau partneriaid ynghyd gan gynnwys amser staff a chyllidebau i sicrhau mwy o effaith a chyflawniad. Mae adeiladu ymddiriedaeth gyda'r sector yn cymryd amser.

https://www.pavo.org.uk/cy/news/farming-fit/

Mae PAVO yn HWB sy'n rhoi gwybodaeth hanfodol

Volunteers celebrated at awards ceremony

Cynnwys yn y wasg am PAVO

'Hay Pride' – Ymgysylltu ag Iechyd Meddwl

- 4409 o ryngweithiadau wedi'u cofnodi ar CRM TSSW
- 286 o unigolion wedi cael mynediad at Wasanaeth Cyfeillio Powys
- 2226 o unigolion wedi cael mynediad at Wasanaeth Cysylltwyr Cymunedol

HWB: Beth wnaethom ni?

- 873 o fudiadau yn aelodau o PAVO
- 122,000 wedi ymweld â gwefan PAVO
- 1087 o achlysuron lle hwyluswyd cydweithio i wella gwasanaethau
- E-fwletinau cyffredinol a thematig PAVO wedi'u cylchredeg yn rheolaidd

HWB – Beth wnaethom ni?

"Ar ran yr 'Infantry Battle School', hoffwn estyn fy niolch diffuant am gymryd rhan ac ac am y gefnogaeth wych i Sioe Filwrol Aberhonddu."

Maj Babindra Gurung, Swyddog Gorchymyn RGR

314

o ddigwyddiadau cymunedol wedi'u mynychu

7,206

o achlysuron lle darparwyd gwybodaeth i bobl, cymunedau a mudiadau

93

o ddigwyddiadau rhwydweithio trydydd sector wedi'u trefnu

Prosiectau	Manylion	Deilliant
Gwefan PAVO	Comisiynwyd gwefan newydd ac aeth yn fyw ychydig cyn dechrau'r flwyddyn newydd.	• Gwefan wedi'i chomisiynu • Cyfieithu i'r Gymraeg wedi'i wella • Diweddaru proffiliau staff
E-fwletin	Nid oedd yr e-fwletin ar waith pan aeth y wefan yn fyw.	• Gweithio gyda'r datblygwr i adnabod meddalwedd addas • Treialu amrywiol lwyfannau • Bwletinau newydd wedi'u cylchredeg
Cyfryngau Cymdeithasol	Newidiadau i algorithmau cyfryngau cymdeithasol wedi effeithio ar ddefnydd o lwyfannau	• Penderfyniad i beidio â defnyddio'r Llwyfan X • Rhesymoli cyfrifon FB PAVO • Cyflwyno offer rheoli cyfryngau cymdeithasol

Hwb – adolygiad

Astudiaeth Achos

Beth – Cefnogodd PAVO ddigwyddiad galw heibio cymunedol mewn canolfan gymunedol leol yn Machynlleth yn ystod Wythnos Gweithredu Dementia.

Roedd Cysylltwyr Cymunedol PAVO, Gwasanaeth Cyfeillio Powys a Chymdeithas Alzheimer ynghyd â chynrychiolwyr o'r ganolfan gymunedol yn bresennol.

Deilliannau – Cynhaliwyd sgyrsiau cefnogol gyda nifer fawr o unigolion â phrofiad bywyd a chyda aelodau'r gymuned. Dosbarthwyd nifer sylweddol o daflenni, derbyniwyd atgyfeiriadau ar gyfer cefnogaeth bellach ac adroddodd unigolion eu bod wedi dysgu beth oedd ar gael yn eu cymuned i'w cefnogi.

Adborth:
"Cyfarfûm â menyw flwyddyn yn ôl ac anfonais e-bost ati gyda rhywfaint o wybodaeth am gefnogaeth Dementia. Ni chefais ymateb i'r e-bost ac nid oedd gennyf ei chyfeiriad na'i rhif ffôn felly ni allwn wirio a oedd wedi derbyn y wybodaeth. Daeth i mewn i'r digwyddiad ac adroddodd ei bod wedi derbyn y wybodaeth a'i fod yn fan cychwyn da i ofalwr fel hi, oedd yn newydd i'r ardal, gan ei helpu i wybod pwy i gysylltu â nhw am gefnogaeth."

Ymgysylltu ag Iechyd Meddwl Dynion

Uchafbwynt – Trefnwyd digwyddiad partneriaeth i gefnogi arweinwyr grwpiau sy'n canolbwyntio ar ddynion i gynnal sgyrsiau iechyd meddwl yn hyderus gyda'u cyfranogwyr.

Dysgu a Datblygu – Gwrandawodd gyfranogwyr ar straeon bywyd go iawn, cynigiwyd cefnogaeth gan gymheiriaid, ac ymgysylltodd mewn trafodaethau am effaith hunanladdiad ymhlith dynion, iechyd meddwl, a lle i gael mynediad at gefnogaeth.

PAVO

Panel Discussion
Recognising the Value of Powys' Voluntary Sector
PAVO

LLYSWEN AND BOUGHROOD
COMMUNITY HALL